



# Sut i Leisio Eich Barn

## Cais am drwydded amgylcheddol bwrpasol newydd Horizon Nuclear Power Wylfa Cyf

Ar hyn o bryd rydym yn asesu cais gan Horizon Nuclear Power Wylfa Cyf am drwydded amgylcheddol pwrpasol newydd, o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 (EPR) i ddefnyddio deunydd ymbelydrol a gwaredu gwastraff ymbelydrol o Orsaf Bŵer arfaethedig Wylfa Newydd yn Nhregele, Ynys Môn.

Rydym eisiau gwneud y penderfyniad gorau wrth drwyddedu. Mae gwrando ar farn pobl eraill yn ein helpu i ystyried pryderon na fyddem fel arall yn ymwybodol ohonynt. Rydym yn gwerthfawrogi'r ymatebion a dderbyniwn gan eu bod yn ein helpu i sicrhau bod unrhyw benderfyniad rydym yn ei wneud yn briodol ac yn gadarn.

Mae'r cais yma yn cyfeirio at ymbelydredd yn unig. Disgwylw i'r ymgeisydd gyflwyno ceisiadau pellach ar gyfer trwyddedau eraill, gan gynnwys gweithgareddau rhyddhau dŵr a gweithgareddau hylosgi o dan EPR a chais am drwydded morol o dan Ddeddf Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 mewn da bryd. Byddwn yn ymgynghori ar y ceisiadau hynny wrth iddynt gael eu derbyn.

Gallwch weld y cais ar wefan yr ymgeisydd drwy ddilyn y linc isod:

<https://www.horizonnuclearpower.com/ein-safleoedd/wylfa-newydd/dogfennau>

Mae'r cais hefyd ar gael i'w weld yn ystod oriau swyddfa arferol yn y lleoliadau canlynol:

**Cyfoeth Naturiol Cymru, Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2DW**

**Canolfan Fusnes Môn, Bryn Cefni, Llangefni, LL77 7XA**

**Cemaes Library, Longlascoed, Cemaes Bay, LL67 0NN**

**Swyddfa Safle Wylfa Newydd, Bae Cemaes, Ynys Môn, LL67 0AA**

Os ydych am weld y cais yn ein swyddfa ni (CNC), galwch ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid o flaen llaw ar 0300 065 3000 er mwyn trefnu hynny os gwelwch yn dda.

Byddwn hefyd yn cynnal tri digwyddiad ymgynghori cyhoeddus lle gallwch chi ddarganfod mwy am y cais:

Dydd Llun 20 Tachwedd 2017 2yh-7yh - Neuadd David Hughes, Cemaes, LL67 0LW

Dydd Mawrth 21 Tachwedd 2017 2yh-7yh - Storiel, Bangor, LL57 1DT

Dydd Mercher 22 Tachwedd 11yb – 4yh - Canolfan Ebeneser, Llangefni, LL77 7PN.

## Rôl Cyfoeth Naturiol Cymru

Ein rôl yw archwilio cais Horizon Nuclear Power Wylfa Cyf ac i benderfynu a ddylid caniatáu neu wrthod trwydded.

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni roi trwydded os gall yr ymgeisydd ddangos bod y safle yn cwrdd â holl ofynion cyfreithiol, amgylcheddol, technolegol ac iechyd cyfraith y DU ac Ewrop.

Mae'r camau a ddilynwn wrth benderfynu a ddylid caniatáu neu wrthod trwydded yn cael eu diffinio gan ofynion cyfreithiol. Mae'n ofynnol i ni gyfiawnhau'r penderfyniad hwn o fewn ffiniau'r cyfyngiadau cyfreithiol hyn. Er enghraifft, byddwn yn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol a godir trwy'r ymgynghoriad hwn ond ni fyddai'n briodol i ni wrthod y drwydded yn syml oherwydd bod gwrthwynebiad lleol i'r gweithgaredd.

Byddwn ond yn cyhoeddi trwydded os credwn fod y gweithredwr yn gallu bodloni amodau'r drwydded. Bydd unrhyw ganiatâd y gallwn ei gyhoeddi yn cynnwys amodau priodol i ddiogelu iechyd pobl a'r amgylchedd.

I'ch helpu chi, rydym wedi nodi'r prif faterion y gallwn ni eu hystyried isod.

## Mae materion y gallwn ystyried sylwadau arnynt yn cynnwys:

- Cymhwysedd y gweithredwr i fodloni amodau'r drwydded
- Y ffordd y caiff gwastraff ymbelydrol ei reoli, ei gynhyrchu, ei ryddhau a'i waredu
- Terfynau arfaethedig rhyddhau gwastraff ymbelydrol
- Trefniadau samplu, a sut y mesurir gwastraff ymbelydrol
- Asesiad dos ymbelydredd a gyflwynwyd gan y gweithredwr

- Cywiro gwybodaeth yn y cais
- Unrhyw ffactorau lleol perthnasol yr ydych chi'n credu nad yw Horizon Nuclear Power Wylfa Cyf wedi ystyried yn ei gais am drwydded
- Cofiwch fod y gweithredwr posibl wedi nodi eu cynigion yn y ddogfen gais, efallai y bydd y rhain - yn eithaf priodol - heb gael eu datblygu'n llawn ar hyn o bryd. Os rhoddir trwydded yna bydd angen i'r gweithredwr ddangos sut mae datblygiadau pellach yn cydymffurfio â'r drwydded a byddwn yn archwilio eu cynnydd fel rhan o'n gweithgareddau gwirio cydymffurfiaeth arferol.

## **Mae materion nad ydym yn gallu ystyried sylwadau arnynt yn cynnwys:**

- Polisi Ynni'r Llywodraeth, gan gynnwys y penderfyniad i ddatblygu pŵer niwclear
- Diogelwch niwclear
- Trefniadau cludiant
- Materion cynllunio, gan gynnwys lleoliad y safle
- Dyddiad y cais ar gyfer y drwydded a dyddiad cychwyn yr ymgynghoriad

Mae'r materion hyn y tu allan i'n rheoliadau amgylcheddol.

## **Sylwadau ar faterion eraill:**

Caiff rhai materion niwclear sydd y tu allan i'n rheoliadau amgylcheddol eu rheoleiddio gan sefydliadau eraill. Efallai y byddwch eisiau ysgrifennu at:

- Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) ar faterion diogelwch niwclear a thrafnidiaeth
- Awdurdodau cynllunio megis PINS ar faterion cynllunio megis traffig, mynediad i'r safle, effaith weledol a defnydd tir
- Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ar bolisi ynni'r DU a rôl materion ynni niwclear

## Camau nesaf

Rydym wedi penderfynu bod y cais wedi'i "wneud yn briodol" o pan gafodd ei dderbyn. Mae hyn yn golygu bod y cais yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei angen arnom i ddechrau'r broses benderfynu.

Rydym bellach yn ymgynghori ar y cais gyda'r bobl a'r rhanddeiliaid. Mae'r ymgynghoriad cychwynol yn rhedeg o 6 Tachwedd 2017 i 14 Ionawr 2018.

Rydym yn gweithio gyda nifer o sefydliadau a chyirff arbenigol i ofyn am eu barn ar ddiogelu iechyd pobl a'r amgylchedd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ONR
- Dŵr Cymru Welsh Water
- Awdurdod Lleol
- Asiantaeth Safonau Bwyd
- Iechyd Cyhoeddus Cymru

Byddwn yn cydweithio'n agos â hwy i fynd i'r afael â phryderon cyhoeddus a rhoi ystyriaeth i'w cyngor arbenigol wrth wneud ein penderfyniad.

Byddwn yn ystyried pob sylw yn ein hasesiad o'r cais hwn lle maent yn berthnasol i fater trwydded ar gyfer sylweddau ymbelydrol.

Lle mae'r sylwadau a wneir yn berthnasol i gais arall a wneir i CNC yna byddwn yn ymdrechu i'w ystyried fel rhan o'r cais hwnnw. Pan fyddwn yn glir y bydd y sylwadau'n berthnasol i gorff statudol arall, byddwn yn ymdrechu i'w gwneud ar gael i'r corff hwnnw i'w hystyried.

Ar gyfer y cais hwn, byddwn yn cofnodi'r holl faterion perthnasol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghyd â'n hymateb, i ddechrau yn Nogfen Penderfyniad Drafft. Byddwn yn ymgynghori eto ar ein penderfyniad drafft, pe baem yn gwneud un, cyn cyhoeddi unrhyw ganlyniad terfynol yn ein Dogfen Benderfyniad.

## Anfonwch eich sylwadau atom

Wrth wneud eich sylwadau, efallai yr hoffech ystyried y cwestiynau canlynol. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i'n helpu i ddeall eich pryderon a nodi materion perthnasol y gallwn eu hystyried wrth wneud penderfyniad.

A oes gennych unrhyw sylwadau ar gynigion Horizon Nuclear Power Wylfa Cyf? Er enghraifft:

1. Sut maen nhw'n bwriadu atal neu leihau'r rhyddhau ymbelydrol?
2. Sut maen nhw'n dangos na fydd eu cynigion yn achosi niwed i iechyd pobl?
3. Sut maen nhw'n dangos na fydd eu cynigion yn achosi niwed i'r amgylchedd?
4. A oes unrhyw ffactorau lleol, e.e. nodweddion amgylcheddol sensitif lleol, nad yw Horizon Nuclear Power Wylfa Cyf wedi ystyried yn eu cais am drwydded yr ydych chi'n credu y dylem ei ystyried?

Hefyd, dywedwch wrthym unrhyw wybodaeth arall y credwch y dylem ei ystyried wrth wneud ein penderfyniad.

Os hoffech wneud unrhyw sylwadau ar y cais, anfonwch nhw at y **Tîm Trwyddedu Diwydiant Rheoledig, Cyfoeth Naturiol Cymru, Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2DW**, neu e-bostiwch nhw at [WylfaNewyddConsultations@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:WylfaNewyddConsultations@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

Fel arfer, rhaid inni roi unrhyw ymatebion a gawn ar y gofrestr gyhoeddus. Gadwch i ni wybod os nad ydych am i'ch ymateb fod yn gyhoeddus.

Os gwnaethoch gynrychiolaeth atom ond, yng ngoleuni'r arweiniad hwn, nawr yn meddwl ei fod yn amhriodol, ysgrifennwch atom yn cadarnhau eich bod am ei dynnu'n ôl. Gellir tynnu'r sylwadau yn ôl ar unrhyw adeg cyn dyddiad penderfynu y cais.

**Ysgrifennir y ddogfen hon mewn termau cyffredinol i'ch helpu chi i ddeall ein proses benderfynu trwyddedu. Nid yw'n cael ei ystyried yn lle cyngor ar faterion penodol. Dylech geisio cyngor penodol cyn cymryd unrhyw gamau yn seiliedig ar y wybodaeth y mae'r ddogfen hon yn ei gynnwys.**